Y CRIW
Mentrus
Cystadleuaeth Ysgolion Cynradd



Cyfnod Sylfaen

Gweithgaredd 3a:
Pwy ydyn ni'n mynd i siarad â nhw?

Amcan dysgu
Galluogi disgyblion i baratoi am ymweliad â'r ysgol gan gynrychiolydd menter / busnes lleol.

Nodweddion Entrepreneuriaeth

Creadigedd
- Cyfathrebu

Trefniadaeth
- Cynllunio

Gweithgareddau dysgu
Trafodwch syniadau'r disgyblion am brosiect menter a gafodd eu creu yng Ngweithgaredd 2.

Gofynnwch y cwestiwn *"Pwy allen ni ei holi i ddysgu mwy am ein syniadau?"*

Gwahoddwch gynrychiolydd o fenter leol i ymweld â'r ysgol. Gallai'r ymwelydd gynrychioli busnes sy'n darparu cynnyrch neu wasanaeth tebyg neu fod yn elusen neu'n gorff y bydd y fenter yn codi arian amdani.

Mae'r disgyblion yn paratoi cwestiynau maen nhw'n bwriadu eu gofyn i'r ymwelydd e.e. *"Beth ydych chi'n ei wneud?" "Beth ydych chi'n ei gynhyrchu?" "Sut ydych chi'n ei wneud?"*

Mae'r disgyblion yn cynllunio pwy fydd yn gofyn y cwestiynau a phwy fydd yn gyfrifol am gwrdd â'r ymwelydd.

Gweithgaredd 3a:
Pwy ydyn ni'n mynd i siarad â nhw?

Cyfnod Sylfaen

Canlyniad dysgu
Mae'r disgyblion yn datblygu sgiliau cynllunio syml ac yn dechrau mynegi syniad i rywun arall.

Adnoddau mae eu hangen
Dim

Cysylltiadau â'r cwricwlwm

1. Fframwaith Cyfnod Sylfaen ar gyfer Dysgu Plant

Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol
- Datblygu dealltwriaeth o'r amrywiaeth o rolau mae pobl yn eu chwarae mewn grwpiau a chymunedau gwahanol.

2. Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd

Llythrennedd – Llafaredd ar draws y cwricwlwm
Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau;
- Gwrando;
- Cydweithredu a thrafod.

Llythrennedd – Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm
- Trefnu syniadau a gwybodaeth;
- Ysgrifennu'n gywir.

3. Cwricwlwm Cymreig

Llywodraeth Cymru
Welsh Government